P-06-1200: Dylid gwneud rhwymo ceffylau yn anghyfreithlon ac yn weithred o greulondeb yng Nghymru, ni waeth a oes gan y ceffylau gysgod neu beidio

Y Pwyllgor Deisebau | 01 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 01 November 2021

Cyfeirnod: SR21/1044-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1200

Teitl y ddeiseb: Dylid gwneud rhwymo ceffylau yn anghyfreithlon ac yn weithred o greulondeb yng Nghymru, ni waeth a oes gan y ceffylau gysgod neu beidio

Geiriad y ddeiseb: Ar hyn o bryd, nid yw rhwymo ceffylau yn anghyfreithlon yng Nghymru. Mae pawb siŵr o fod wedi gweld ceffyl hyfryd yn rhwym wrth gadwyn fer yn ymyl y ffordd, heb gysgod rhag y tywydd garw.

Ymddengys nad oes gan yr RSPCA bŵer i wneud dim am y peth! Pe bai ci wedi cael ei glymu yn ymyl ffordd brysur, byddai dicter. Mae'r ddau anifail yn bwysig!

Rhaid pasio deddfau i atal y creulondeb ofnadwy hwn i greaduriaid mor sensitif! Nid oes gan yr anifeiliaid hyn unrhyw ansawdd bywyd; mae'n sgandal llwyr.

Creodd yr elusen les HorseWorld ymgyrch #BreaktheChain gyda'r gobaith o newid y gyfraith. Er i'r arfer hwn gael ei alw'n greulon a pheryglus, mae'n aros yn gyfreithiol.

Ewch i'r wefan www.BreakTheChain.org.uk am ragor o wybodaeth.

Byddwn mor falch o Gymru pe bae'n arwain y ffordd i atal yr arfer ofnadwy hwn o'r diwedd. Mae'r RSPCA hefyd yn gwrthwynebu'r arfer, gan ddweud ei fod yn peryglu lles anifeiliaid mewn sawl ffordd.

Mae cod ymarfer Defra er lles ceffylau a chod ymarfer Llywodraeth Cymru yn nodi nad yw rhwymo ceffylau yn ddull addas ar gyfer rheoli'r anifeiliaid. Rhaid gofyn pam, felly, nad yw'n anghyfreithlon?

1. Cefndir

'Rhwymo' yw'r term a ddefnyddir pan fydd ceffyl wedi'i glymu i'w atal rhag symud allan o radiws penodol, gan ddefnyddio rhaff, cadwyn, strap neu gortyn.

Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol i wahardd rhwymo ceffylau. Fodd bynnag, o dan *Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006*, mae dyletswydd gyfreithiol ar berchnogion ceffylau, yn ogystal â phobl sy'n gofalu am geffylau, i fodloni pum angen penodedig o ran lles ar bob adeg. Rhaid i geffylau:

- fod ag amgylchedd addas i fyw ynddo;
- cael diet iach;
- gallu ymddwyn yn ôl eu harfer;
- bod â chwmni priodol; a
- chael eu hamddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd.

Os nad yw'r anghenion hyn yn cael eu bodloni am fod ceffyl wedi'i rwymo, gallai hyn fod yn groes i Ddeddf 2006. Gellir mynegi pryderon ynghylch lles anifail i'r awdurdod lleol perthnasol, sydd â phwerau o dan Ddeddf 2006 i ymchwilio i faterion o'r fath.

Nid yw'r RSPCA yn argymell rhwymo fel ffordd ddichonadwy o gadw ceffyl. Yn ôl yr RSPCA:

> If a horse needs to be tethered in order to have access to grazing, it must only be for short periods of time. For the remainder of the day the horse should have access to shelter, and a space to run free and interact freely with other horses.

2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y fersiwn ddiweddaraf o'i chod ymarfer ar gyfer lles ceffylau. Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cod ar ei newydd wedd ei gynnal dros gyfnod o 12 wythnos yn 2017. Mae'r cod yn nodi gofynion *Deddf Lles Anifeiliaid 2006* y cyfeirir atynt uchod.

Mae Atodiad 1 i'r cod yn trafod rhwymo ceffylau yn benodol, ac yn nodi na ddylid "defnyddio clymu fel dull tymor hir ar gyfer rheoli ceffylau", oherwydd gallai hyn arwain at fethu â bodloni anghenion lles sylfaenol ceffyl fel y nodir yn Neddf 2006. Mae'r adran hon yn ymdrin ag addasrwydd yr anifail, y safle lle mae'r anifail wedi'i rwymo, a'r offer a ddefnyddir, ymhlith materion eraill.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru *Ddeddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014* ar gais awdurdodau gorfodi, cominwyr ac elusennau lles. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol ymdrin ag achosion o adael ceffylau a merlod sy'n pori ar dir pan nad oes gan berchennog yr anifeiliaid ganiatâd perchennog y tir.

3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Ni fu unrhyw waith sylweddol yn y Senedd i wahardd rhwymo ceffylau. Cyflwynwyd cwestiwn ysgrifenedig ar y mater hwn yn 2017.

> Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.